



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

'6 MILIWN A MWY' - Y GOFEB FOTYMAU

Mae'r gwaith *6 miliwn a mwy*, sy'n cynnwys dros chwe miliwn o fotymau, wedi hoelio dychymyg miloedd o bobl, gan ysbrydoli awdurdod lleol yn Swydd Gaerefrog i adeiladu cofeb barhaol cyntaf y rhanbarth i'r Holocost.



'Diben y gofeb yw
'cynnal a fflamio hyder,
gobaith ac angerdd, gan
annog pobl i godi ar eu
traed fel unigolion ac
mewn grwpiau i wneud
gwahaniaeth positif i
fynyddau pobl eraill.'

Ar 25 Ionawr 2006, lansiodd Oriol Gelf Huddersfield waith o'r enw *6 miliwn a mwy* i gofio dioddefwyr yr Holocost. Crëwyd y darn gan artist lleol o Kirklees, Antonia Stowe, gyda chefnogaeth Amgueddfa ac Oriolau Kirklees ac Oriol Gelf Huddersfield. Ei nod oedd annog pobl i fynd i'r afael ag erchyllterau'r Holocost a hil-laddiad dilynol a myfyrio arnynt, tra'n hyrwyddo'r neges bositif y gall pob unigolyn wneud gwahaniaeth hefyd.

Lluniwyd y gwaith o dros chwe miliwn o fotymau unigol a roddwyd gan y gymuned leol. Mae'r botymau wedi'u trefnu'n dyrrau sy'n sefyll uwchlaw'r gwylwr, yn arbennig plant, gan eu galluogi i adlewyrchu ar faint yr Holocost a'r nifer enfawr o fywyddau a effeithiwyd ganddo.

Oddi ar 2006, mae *6 miliwn a mwy* wedi bod yn llwyddiant enfawr ac mae wedi cael effaith ar filoedd o bobl. Mae wedi teithio'r DU, ysbrydoli chwaer-brosiect yn Seland Newydd ac mae wedi dod yn gerflun cofio cyhoeddus cyntaf Swydd Gaerefrog i'r Holocost. Ar ôl ei lansio, cynyddodd y gefnogaeth ar gyfer *6 miliwn a mwy* yn gyflym. Er i'r botymau gael eu rhoi gan bobl yng nghymuned Kirklees i ddechrau, wrth i'r gwaith ddenu sylw ehangach, daeth rhoddion o bob cwr o'r DU. Cafodd rhoddion o Unol Daleithiau America hyd yn oed. Arhosodd yn Oriol Gelf Kirklees hyd fis Ionawr 2007, pan ddechreuodd ar daith pedair blynedd o hyd o'r Deyrnas Unedig. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi ymweld â nifer o gymunedau, gan gynnwys Guildhall Newcastle-upon-Tyne, Canolfan Siopa Brent Cross yn Llundain, Amgueddfa Dewsbury ac Eglwys Gadeiriol Ripon. Cododd o daith ei broffil yn fwy, wrth iddo ennill gryn sylw gan y cyfryngau ac ysbrydoli cynulleidfa gynyddol gyda'i neges gadarnhaol.

6 miliwn a mwy i Oriol Gelf Huddersfield ym mis Chwefror 2011 lle y parhaodd i gyffroi ac ysbrydoli pobl. Arhosodd yn yr oriel am dair blynedd hyd nes i Gyngor Kirklees lansio rhaglen gofio er mwyn sicrhau y byddai ei effaith gadarnhaol yn parhau.

Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2014 cyhoeddodd Cyngor Kirklees gynlluniau i adeiladu cofeb gyhoeddus cyntaf Swydd Gaerefrog i'r Holocaust, yn seiliedig ar *6 miliwn a mwy*. Yn ogystal, cyhoeddodd y cyngor y byddai'n creu ymddiriedolaeth annibynnol i reoli'r gofeb a chynnal prosiectau fyddai'n ennyn diddordeb y gymuned leol. Nod yr ymddiriedolaeth fyddai codi tua £1.5 miliwn i adeiladu'r cerflun a chyflwyno rhaglen o weithgareddau i gofio'r Holocaust, gan gynnwys gweithdai i'r cyhoedd a sgysiau gan oroeswyr. Yn yr un modd â *6 miliwn a mwy*, diben y rhaglen hon yw annog pobl i fynd i'r afael ag erchyllterau'r Holocaust a hil-laddiad dilynol a myfyrion arnynt, tra'n hyrwyddo thema bositif y gall pob unigolyn wneud gwahaniaeth hefyd. Roedd y rhaglen yn cynnwys gweithdai i annog cyfranogwyr i ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â materion modern sy'n bygwth rhannu cymunedau, megis hiliaeth.



Pan greodd Antonia Stowe *6 miliwn a mwy*, dywedodd mai ei ddiben oedd 'cynnu a fflamio hyder, gobaith ac angerdd, gan annog pobl i godi ar eu traed fel unigolion ac mewn grwpiau i wneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl eraill'. Ar ôl cyrraedd miloedd o bobl ledled y DU gyda'i neges yn barod, bydd *6 miliwn a mwy* yn parhau i weithredu fel ffynhonnell ysbrydoliaeth fel cofeb barhaol i'r Holocaust yn Kirklees.

I gael rhagor o wybodaeth:

- Darllen am [yr Holocaust](#) ar wefan HMDT:
- [Gwefan swyddogol 6 miliwn a mwy](#)
- [Prosiectau Antonia Stowe](#) ar ei gwefan swyddogol
- Antonia Stowe ar wefan [Gweithdy Cerfluniaeth Leeds](#)
- 'Holocaust memorial statue location to be announced', ITV News, 30 Ionawr 2014
- 'D-day for Kirklees Holocaust tribute sculpture', Huddersfield Daily Examiner, 20 Ionawr 2014
- 'Holocaust memorial to be built at Huddersfield university', gwefan 'BBC News', 30 Ionawr 2014
- *6 miliwn a mwy* ar [wefan Cyngor Kirklees](#)
- 'One and a half million buttons in memory of children killed in the Holocaust', Canolfan Holocaust Seland Newydd